## Rhaglen waith Ddrafft yr Is-grŵp Dosbarthu 2024

Mae rhaglen waith 2024 mewn dwy ran sy'n cwmpasu'r ystyriaethau tymor byr a strategol sy'n ymwneud â datblygu'r fformiwla. Mae'r adran gyntaf yn ystyried yr eitemau hynny y nodwyd bod angen eu hystyried er mwyn sicrhau bod setliadau yn y dyfodol (2025-26 a 2026-27) yn ystyried materion perthnasol. Mae'r ail adran yn ystyried agweddau mwy strategol ar y fformiwla bresennol yr argymhellir y dylid eu hadolygu dros gyfnod hwy i sicrhau bod y fformiwla yn gwella'n barhaus ac yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas i'r diben.

*Neilltuwyd categori blaenoriaeth i bob un o'r ystyriaethau. Bydd pob elfen safonol yn cael y blaenoriaeth uchel gan fod angen eu cwblhau eleni. Mae'r elfennau sy'n weddill wedi'u blaenoriaethu yn unol â'r pwysigrwydd y cytunwyd arno wrth ddatblygu fformiwla'r Setliad. Gall elfen fod yn flaenoriaeth uchel ond bod iddi amserlen hirach - gall hyn fod oherwydd yr amser a gymerir i wneud y newid neu oherwydd nad oes gwybodaeth berthnasol ar gael eto i lywio'r newid.*

*Gall yr amserlen newid yn seiliedig ar benderfyniadau ynghylch diwygio'r dreth gyngor.*

**Ystyriaethau Tymor Byr**

**Blaenoriaeth:**
**1: Eitemau safonol a fydd yn cael blaenoriaeth uchel ac a fydd yn cael eu cwblhau eleni.**
**2: Meysydd a fydd yn flaenoriaeth uchel.**
**3: Meysydd a fydd yn llai o flaenoriaeth.**

| Blaenoriaeth | Eitem | Disgrifiad | Cam gweithredu | Amserlen wedi'i chynllunio ar gyfer cwblhau (gan gynnwys cerrig milltir) |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | Data poblogaeth ar gyfer setliadau yn y dyfodol | Cytunodd yr Is-grŵp Dosbarthu i ddefnyddio'r data poblogaeth diweddaraf ar gyfer setliad 2024-25 (Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2022).<br>Mae setliad 2025-26 yn ymchwilio i oblygiadau ariannol y canlynol:<br>- Amcangyfrifon poblogaeth canol 2023<br>- Amcanestyniadau Poblogaeth Is-genedlaethol seiliedig ar 2021 ar gyfer y flwyddyn 2025.<br>**Atodlen Rhyddhau (Poblogaeth)**<br>Amcangyfrifon poblogaeth canol 2023 (Haf 2024)<br>Amcanestyniadau poblogaeth Is-genedlaethol seiliedig ar 2021 (Gaeaf 2024) | Parhau i weithio gydag ystadegwyr poblogaeth a chyfrifiad KAS i gynllunio ffordd ymlaen. Cynhyrchu dadansoddiad o amcangyfrifon poblogaeth Canol 2023 ac amcanestyniadau poblogaeth Is-genedlaethol seiliedig ar 2021. | **Tymor yr Hydref 2024:**<br>Bydd yr Is-grwp Dosbarthu yn cael opsiynau ym mis Medi/Hydref ar gyfer setliad 2025-26. |

| Blaenoriaeth | Eitem | Disgrifiad | Cam gweithredu | Amserlen wedi'i chynllunio ar gyfer cwblhau (gan gynnwys cerrig milltir) |
|---|---|---|---|---|
| **3**. | Set ddata Budd-dal Tai | Penderfynodd yr Is-grŵp Dosbarthu i rewi'r set ddata hon, oherwydd effaith cyflwyno credyd Cynhwysol. | Parhau i asesu amnewidiadau posibl ar gyfer y dangosydd hwn yn y tymor hwy.<br><br>**Yn y tymor byr, bydd hefyd angen ystyried sut y bydd trosglwyddiad grantiau tai (a ddisgwylir yn 2025-26) yn cael ei neilltuo**. | Setliad 2026/27. |
| **3.** | Cyllid y gwasanaeth ieuenctid | Gofynnwyd am adolygiad annibynnol gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid dros dro | Ystyried goblygiadau'r adolygiad annibynnol. | Setliad 2026-27 |
| **1** | Lleoliadau Arbenigol Anawsterau Dysgu a/neu Anableddau Ôl-16 | Rhoddir ystyriaeth i newid y trefniadau ar gyfer Lleoliadau Arbenigol Anawsterau Dysgu a/neu Anableddau Ôl-16. Mae'r ystyriaethau hyn yn dilyn y cynigion ar gyfer fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a gynhwysir yn y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2016. | Mae cynnydd yn y maes hwn yn gysylltiedig â gwaith parhaus gan gydweithwyr polisi. Byddwn yn blaenoriaethu unrhyw waith sy’n ofynnol gan gydweithwyr i lywio penderfyniadau ar gyllid. | Ar y gweill |

| Blaenoriaeth | Eitem | Disgrifiad | Cam gweithredu | Amserlen wedi'i chynllunio ar gyfer cwblhau (gan gynnwys cerrig milltir) |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Trosglwyddiadau posibl i a/neu o'r setliad | Ystyried trosglwyddiadau posibl eraill i'r setliad ar yr adeg briodol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw drosglwyddiadau o ganlyniad i'r rhaglen waith rhesymoli grantiau.<br><br>Roedd unrhyw grantiau a nodwyd i symud i'r Grant Cynnal Refeniw yn 24-25 yn seiliedig ar ddosraniadau presennol – mae angen adolygu'r rhain ar gyfer y setliad 25-26. Gellir nodi grantiau pellach fel rhan o'r gwaith parhaus yn ystod 24-25 i'w trosglwyddo i'r setliad yn 25-26. | Monitro'r sefyllfa ym maes polisi.<br>Blaenoriaethu trosglwyddiadau sylweddol.<br>Ystyried adnoddau ychwanegol os oes angen. | **Tymor yr Hydref 2024:**<br>• penderfyniadau ar ddosbarthu grantiau a drosglwyddwyd yn 24-25; a<br>• penderfyniadau ar unrhyw grantiau ychwanegol i'w trosglwyddo i Setliad 2025-26 |
| **1** | Cyngor ar ddosbarthu cyllid grant penodol ar sail ad hoc | Ystyried agweddau dosbarthu cynlluniau grant penodol, fel y bo'n briodol, yn amserol ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar grantiau. | Monitro'r sefyllfa ym maes polisi.<br>Is-grŵp Dosbarthu wedi gofyn am fwy o gyfranogiad. | Ar y gweill |

| Blaenoriaeth | Eitem | Disgrifiad | Cam gweithredu | Amserlen wedi'i chynllunio ar gyfer cwblhau (gan gynnwys cerrig milltir) |
|---|---|---|---|---|
| | **Papurau sefydlog blynyddol** | | | |
| **1** | Diweddariadau data PLASC, gan gynnwys data e-FSM (cymwys i gael cinio ysgol am ddim). | Papur sefydlog blynyddol yn edrych ar oblygiadau diweddaru data PLASC yn y fformiwla setliad ar ddosbarthu i awdurdodau.<br><br>Papur sy'n edrych ar oblygiadau diweddaru'r data e-FSM (a TP - amddiffyn wrth bontio) yn y fformiwla setliad ar ddosbarthu i awdurdodau. | Bydd dadansoddiad yn cael ei gyflwyno yn yr Is-grŵp Dosbarthu ym mis Medi neu fis Tachwedd | Tymor yr Hydref 2024 |
| **1** | Diweddariadau data Alldro Refeniw (RO) / Cyfrif Refeniw (RA) | Papur sefydlog blynyddol yn edrych ar oblygiadau diweddaru'r data RO ac RA yn y fformiwla setliad ar ddosbarthu i awdurdodau. | Bydd dadansoddiad yn cael ei gyflwyno yn yr Is-grŵp Dosbarthu ym mis Medi neu fis Tachwedd | Tymor yr Hydref 2024 |
| **1** | Adroddiad Cynnydd yr Is-grŵp Dosbarthu - dros dro | Adroddiad o gynnydd yr Is-grŵp Dosbarthu yn erbyn rhaglen waith 2024 hyd at fis Medi 2024, i'w gyflwyno yng nghyfarfod yr Is-Grŵp Cyllid (FSG) ym mis Hydref. | Bydd y dadansoddiad yn cael ei gyflwyno yn yr Is-grŵp Dosbarthu ym mis Medi a mis Tachwedd. Bydd dadansoddiad yn cael ei gyflwyno yn yr Is-grŵp Cyllid ym mis Hydref | Medi 2024 |
| **1** | Adroddiad Cynnydd yr Is-grŵp Dosbarthu - terfynol | Bydd adroddiad terfynol yr Is-grŵp Dosbarthu yn cael ei gymeradwyo gan yr Is-Grŵp Cyllid (FSG) yn ystod tymor yr hydref 2024. | Is-Grŵp Cyllid (FSG) mis Hydref a'r adroddiad terfynol ym mis Tachwedd. | Tymor yr Hydref 2024 |

**Ystyriaethau Strategol**

| Blaenoriaeth | Eitem | Disgrifiad | Cam gweithredu | Amseru |
|---|---|---|---|---|
| **I'w gadarnhau** | Gwaith sy'n gysylltiedig â Diwygio Treth Llywodraeth Leol | Ystyried y gwaith ar ddiwygio treth llywodraeth leol a'r effaith y gallai hyn ei chael ar y Setliad, gan gynnwys:<br>• **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**: ystyried opsiynau ar gyfer talu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o flwyddyn 1 y diwygiad.<br>• **Treth Gyngor Tybiannol**: ystyried a oes angen newid y dull presennol o benderfynu ar y Dreth Gyngor tybiannol yn y model Setliad yn dilyn diwygio'r dreth gyngor.<br>• **Pontio**: ystyried sut y gall unrhyw opsiynau ar gyfer pontio effeithio ar gyfrifiadau'r Setliad.<br>• **Diogelu'r Dyfodol**: ystyried sut y gallwn gynnwys diogelu at y dyfodol yn fformiwla y Setliad i adlewyrchu ailbrisiadau yn y dyfodol. | Sicrhau bod yr Is-grwp Dosbarthu yn ymgysylltu ar yr adegau priodol ac yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau o Ddiwygio Cyllid Llywodraeth Leol.<br>Ystyried materion sy'n codi gan gynnwys effeithiau ailddosbarthu, unrhyw gyfnodedd ac ati. | **Mae'r llinell amser a blaenoriaeth i benderfynu ar y ffordd ymlaen ar ddiwygio trethi yn glir.** |
| **1**<br>**(er y gall newid yn dibynnu ar amseriad diwygio'r** | Monitro'r gwaith i nodi setiau data amgen ar gyfer dangosydd amddifadedd procsi yn lle eFSM. | Monitro'r data a'r goblygiadau dosbarthu sy'n deillio o'r newid i sicrhau fod pob disgybl ysgol gynradd yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim, oherwydd effaith bosibl hyn ar ansawdd y dangosydd ar gyfer | Parhau i gysylltu'n agos â'r tîm polisi drwy weithgor. | Bydd yn cyd-fynd â chanlyniadau grŵp polisi e-FSM Llywodraeth Cymru. |

| Blaenoriaeth | Eitem | Disgrifiad | Cam gweithredu | Amseru |
|---|---|---|---|---|
| **Dreth Gyngor)** | | setliadau yn y dyfodol. Defnyddiodd 2024-25 gyfartaledd disgyblion eFSM a TP ar gyfer blynyddoedd 2021, 2022 a 2023 fel y cytunwyd arno trwy'r Is-grŵp Dosbarthu. | | |
| **2** | Diwygio Lles | Gan fod data sy'n gysylltiedig â budd-dal yn gydrannau allweddol o'r setliad, mae angen i'r Is-grŵp Dosbarthu fonitro yn gyson effaith diwygio lles sy'n dod i'r amlwg ar y data a ddefnyddir yn y fformiwla. | Mae angen i ni asesu'r dangosyddion cyfredol (wedi'u rhewi a heb eu rhewi) i sicrhau bod y rhain yn dal i adlewyrchu mecanwaith dosbarthu teg a chytbwys, o ystyried goblygiadau'r newidiadau i system les Llywodraeth y DU. | Disgwylir i'r gwaith gael ei ohirio tan Setliad 2026/27. |
| **1**<br>**(er y gall newid yn dibynnu ar amseriad diwygio'r Dreth Gyngor)** | Parhau i adolygu dangosyddion Cyfrifiad 1991 sy'n cynnwys teneurwydd a gwasgariad:<br>**1. Ail-raddnodi'r Fformiwla Meithrin ac Ysgolion Cynradd** | Yn dilyn y gweithdy data ym mis Medi 2023 y camau gweithredu oedd<br>- Arbenigwyr System Gwybodaeth Ddaearyddol i gysylltu â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddeall ymhellach fethodoleg y data trothwy setliad newydd yng nghyd-destun topograffi Cymru a throsglwyddo dealltwriaeth i'r Is-grŵp Dosbarthu. | Swyddogion i ystyried effaith diweddariadau o ddata Cyfrifiad 1991 i ddata Cyfrifiad 2021, gan ail-raddnodi'r pwysoliadau ar gyfer **Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion Meithrin ac Ysgolion Cynradd,** er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r mesur | Dadansoddiad i'w gyflwyno yn yr Is-grŵp Dosbarthu*:<br>- 21/05/24<br>- 04/07/24<br>- 19/09/24 |

| Blaenoriaeth | Eitem | Disgrifiad | Cam gweithredu | Amseru |
|---|---|---|---|---|
| | | - Y tîm setliad i barhau â'r gwaith hwn a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Is-grŵp Dosbarthu am gynnydd a chanfyddiadau. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r angen am staff/adnoddau.<br>- Bydd y tîm setliad yn edrych ar nifer o opsiynau trothwy o fewn data anheddiad cyfrifiad 2021. Mae hyn oherwydd bod y gwahaniaethau bach iawn yn y dadansoddiad atchweliad ar gyfer addasrwydd trothwyon anheddiadau sy'n llai na 10,000 o unigolion.<br>**Fformiwla Gyfredol:**<br>**Pwysoli:** **Dangosydd:**<br>0.815 x Disgyblion ysgolion cynradd a meithrin<br>0.098 x Trothwy anheddiad 1,000<br>0.087 x Disgyblion ysgol gynradd sy'n gymwys i gael cinio ysgol am ddim | gorau o'r angen i wario. | |
| **1**<br>**(er y gall newid yn dibynnu ar amseriad diwygio'r** | Parhau i adolygu dangosyddion Cyfrifiad 1991 sy'n cynnwys teneurwydd a gwasgariad:<br>**2. Ailraddnodi'r Fformiwla Gofal Preswyl a Gofal yn y Cartref i Oedolion Hŷn** | Cyflwynwyd y papur canlynol i'r Is-grŵp Dosbarthu: 2023-06-08 - Is-Grŵp Dosbarthu (DSG) - Papur 07 - Setiau data Cyfrifiad 2021<br>Roedd hyn yn dangos enghraifft o setiau data'r Cyfrifiad. | Swyddogion i ddangos effaith defnyddio gwahanol fandiau oedran poblogaeth. | Dadansoddiad i'w gyflwyno yn yr Is-grŵp Dosbarthu*:<br>- 21/05/24<br>- 04/07/24 |

| Blaenoriaeth | Eitem | Disgrifiad | Cam gweithredu | Amseru |
|---|---|---|---|---|
| **Dreth Gyngor)** | | - Pensiynwyr sy'n byw mewn aelwydydd ar eu pennau eu hunain (2023)<br>- Pensiynwyr â salwch cyfyngus hirdymor (2023)<br><br>**Fformiwla Gyfredol:**<br>**Pwysoli: Dangosydd:**<br>0.320 x Pensiynwyr gyda salwch cyfyngus hirdymor<br>0.303 x Pensiynwyr sy'n byw mewn aelwydydd ar eu pennau eu hunain<br>0.202 x Poblogaeth 85 oed a throsodd<br>0.146 x Hawlwyr credyd pensiwn 65 oed a throsodd<br>0.016 x Trothwy gwasgariad 300 (2001)<br>0.013 x Trothwy gwasgariad 7,500 (2001) | Swyddogion i ystyried effaith diweddariadau o ddata Cyfrifiad 2001 i ddata Cyfrifiad 2021, gan ail-raddnodi'r pwysoliadau ar gyfer **Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion gofal preswyl a gofal cartref i oedolion hŷn**, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r mesur gorau o'r angen i wario. | - 19/09/24 |
| **2**<br>**(er y gall newid yn dibynnu ar amseriad diwygio'r Dreth Gyngor)** | Data Cyfrifiad 2021: | Ystyried diweddaru data'r Cyfrifiad yn y setliad gyda data Cyfrifiad 2021 wedi'u cyhoeddi o Wanwyn 2023 ymlaen. Mae ystadegau cryno o destunau cyfrifiad cyfanredol Cymru ar gael yn ogystal â map rhyngweithiol. Bydd dadansoddiad manylach a ddadansoddwyd yn ôl Awdurdod Lleol, oedran a nodweddion | I ddechrau, byddwn yn edrych ar effaith diweddaru dangosyddion y cyfrifiad sy'n gysylltiedig ag **'Ailraddnodi'r Fformiwla Gofal Preswyl a Gofal** | Dadansoddiad i'w gyflwyno yn yr Is-grŵp Dosbarthu*:<br>- 21/05/24<br>- 04/07/24<br>- 19/09/24 |

| Blaenoriaeth | Eitem | Disgrifiad | Cam gweithredu | Amseru |
|---|---|---|---|---|
| | | eraill yn cael eu rhyddhau yn ystod 2023 a 2024.<br>Atodlen Rhyddhau (Setiau data a ddefnyddir mewn anheddiad):<br>- Oedolion rhwng 18 a 64 oed mewn grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn (dechrau 2023).<br>- Plant dibynnol mewn aelwydydd lle mae pennaeth yr aelwyd mewn dosbarth galwedigaethol isel. (2023)<br>- Plant dibynnol mewn aelwydydd gydag un oedolyn (2023)<br>- Plant dibynnol mewn tai gorlawn (2023)<br>- Plant dibynnol mewn tai rhent cymdeithasol (2023)<br>- Aelwydydd lle mae pennaeth yr aelwyd rhwng 18 a 64 oed heb unrhyw ofalwr (2023)<br>- Pensiynwyr sy'n byw mewn aelwydydd ar eu pennau eu hunain (2023)<br>- Pensiynwyr â salwch cyfyngus hirdymor (2023)<br>- Poblogaeth o dan 18 oed mewn wardiau â dwysedd wedi'i bwysoli sy'n uwch na | **Cartref i oedolion hŷn'** – gweler uchod. | |

| Blaenoriaeth | Eitem | Disgrifiad | Cam gweithredu | Amseru |
|---|---|---|---|---|
| | | chyfartaledd Cymru (dechrau 2023) | | |

*Gall cerrig milltir newid yn dibynnu ar linell amser diwygio'r dreth llywodraeth leol.